Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Gyrfaoedd Moesegol 2025-2030

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg

## CYNNWYS

CYNNWYS .......... 2
1. Cyflwyniad .......... 3
2. Pwrpas .......... 3
3. Cwmpas .......... 3
4. Polisi .......... 3
4.1 Arweiniad Gyrfaoedd Diduedd .......... 3
  4.2 Ymgysylltu â Chyflogwyr Moesegol .......... 4
  4.3 Hyrwyddo Gyrfaoedd Cynaliadwy .......... 4
  4.4 Arferion cyflogaeth teg a chyfrifol .......... 4
  4.5 Dyledus Ddiwydrwydd Cyflogwyr .......... 4
  4.6 Cynhwysiant ac Ehangu Cyfranogiad .......... 4
  4.7 Gweithrediadau cynaliadwy .......... 5
5. Cyfrifoldebau .......... 5
  5.1 Gwasanaeth Gyrfaoedd .......... 5
  5.2 Staff Gyrfaoedd .......... 5
  5.3 Cyflogwyr yn Ymgysylltu â PCYDDS .......... 5
6. Monitro .......... 5
7. Camddefnyddio Polisi .......... 6
8. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill .......... 6

## 1. Cyflwyniad

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) wedi ymrwymo i ymgorffori cynaliadwyedd, arweinyddiaeth gyfrifol, ac arferion moesegol ar draws pob un o feysydd ei gweithrediadau a phrofiadau myfyrwyr.

Mae'r Polisi Gyrfaoedd Moesegol hwn yn ategu'r amcanion a nodir yn Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025–2030, yn enwedig blaenoriaeth strategol 2 'Addysg a Chyflogadwyedd', sy'n ceisio sicrhau bod graddedigion yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r cyfleoedd i gyfrannu'n gadarnhaol at economi fyd-eang gynaliadwy a chyfrifol, gan gynnwys hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phenderfyniadau gyrfa moesegol ac archwilio opsiynau gyrfa. Trwy'r polisi hwn, nod y Gwasanaeth Gyrfaoedd yw alinio ymgysylltiad â chyflogwyr, gweithgarwch recriwtio, ac arweiniad gyrfaoedd ag uchelgeisiau cynaliadwyedd y Brifysgol wrth barhau i roi cyngor diduedd sy'n galluogi myfyrwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gyrfaoedd yn y dyfodol a hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o amgylcheddau cynaliadwy sy'n cynnwys meithrin arferion rhyngbersonol moesegol a diwylliannau gweithle iach.

## 2. Pwrpas

Pwrpas y polisi hwn yw sefydlu fframwaith clir ar gyfer arferion moesegol yng Ngwasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) mewn perthynas ag ymgysylltu â chyflogwyr, hyrwyddo recriwtio, a chymorth gyrfa myfyrwyr.

Mae'r polisi yn sicrhau bod gweithgareddau gyrfaoedd yn cyd-fynd ag ymrwymiadau'r Brifysgol o ran:

- Cynaliadwyedd ac arferion amgylcheddol cyfrifol
- Ymgysylltu moesegol â sefydliadau allanol
- Mynediad teg a chynhwysol i gyfleoedd cyflogaeth
- Tryloywder a safonau proffesiynol ym maes arweiniad gyrfaoedd

Mae'r polisi yn cefnogi amcanion strategol ehangach ac ymrwymiadau cynaliadwyedd y Brifysgol, gan gynnwys ei gwaith tuag at sero net ac ymarfer sefydliadol cyfrifol.

## 3. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i’r canlynol:

- Gwasanaeth Gyrfaoedd PCYDDS
- Digwyddiadau gyrfaoedd a mentrau cyflogadwyedd a drefnir neu a gefnogir gan y Brifysgol
- Cyflogwyr a sefydliadau allanol sy'n ymgysylltu â'r Brifysgol drwy wasanaethau gyrfaoedd

Mae'r polisi yn berthnasol i gyfleoedd a hyrwyddir drwy:

- Lwyfannau gyrfaoedd prifysgol
- Digwyddiadau gyrfaoedd a ffeiriau
- Gweithgarwch marchnata cyflogwyr a gefnogir gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd

## 4. Polisi

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion craidd canlynol:

### 4.1 Arweiniad Gyrfaoedd Diduedd

Darpara'r Gwasanaeth arweiniad gyrfaoedd Canolbwyntio ar y Myfyriwr, annibynnol a diduedd, gan alluogi myfyrwyr a graddedigion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu llwybrau gyrfa.

### 4.2 Ymgysylltu â Chyflogwyr Moesegol

Ceisia'r Brifysgol ymgysylltu â chyflogwyr y mae eu gweithgareddau yn cyd-fynd â safonau amgylcheddol, cymdeithasol a moesegol cyfrifol.

O’r herwydd, ceisia’r Gwasanaeth Gyrfaoedd beidio â chydweithio na chynnal perthynas â diwydiannau/cwmnïau sy'n gweithredu mewn diwydiannau a gydnabyddir yn eang yn rhai sydd ag effeithiau negyddol sylweddol ar yr amgylchedd neu ar iechyd y cyhoedd, gan gynnwys:

- Cwmnïau tanwydd ffosil ar restr Carbon Underground 200, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag echdynnu glo neu dywod tar
- Cwmnïau mwyngloddio a nodwyd ar restr Carbon Underground 200 a'r 50 cwmni mwyngloddio ar restr Transition Mineral Mining 50
- Cwmnïau arfau sy'n ymwneud â gwerthu i gyfundrefnau a y mae sancsiynau arnynt
- Cwmnïau tybaco a sefydliadau sy'n gwneud cynhyrchion sy'n seiliedig ar dybaco.

Er bod cyfleoedd o’r sectorau hyn yn ymddangos trwy lwyfannau swyddi gwag trydydd parti, ni fydd y Gwasanaeth yn mynd ati i hyrwyddo'r rolau hyn. Gall myfyrwyr barhau i geisio arweiniad diduedd ynghylch cyfleoedd o'r fath yn ystod sesiynau arweiniad gyrfaoedd un-i-un.

### 4.3 Hyrwyddo Gyrfaoedd Cynaliadwy

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn hyrwyddo cyfleoedd gyrfa a gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr sy'n cyfrannu i’r canlynol:

- Cynaliadwyedd amgylcheddol
- Datblygu sgiliau gwyrdd
- Cyfrifoldeb cymdeithasol
- Datblygu economaidd cynaliadwy

Pan fo'n bosibl, bydd cyfathrebu ac ymgyrchoedd gyrfaoedd yn blaenoriaethu sefydliadau sy'n cyfrannu i’r canlyniadau hyn.

### 4.4 Arferion cyflogaeth teg a chyfrifol

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn hyrwyddo arferion cyflogaeth teg a mynediad teg at gyfleoedd gwaith.

### 4.5 Dyledus Ddiwydrwydd Cyflogwyr

Cynhelir gwiriadau priodol ar bob cyfle a hysbysebir drwy'r Gwasanaeth Gyrfaoedd i sicrhau eu bod yn gyfreithlon ac yn cydymffurfio â chyfraith cyflogaeth berthnasol.

Gall hyn gynnwys:

- Sgrinio cyfleoedd o lwyfannau swyddi gwag trydydd parti
- Gwiriadau â llaw o gyfleoedd a gyflwynwyd gan gyflogwyr
- Sicrhau bod cyflogwyr yn darparu amgylcheddau gwaith diogel
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau cyflogaeth

### 4.6 Cynhwysiant ac Ehangu Cyfranogiad

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cefnogi ymrwymiad y Brifysgol i ehangu cyfranogiad a datblygiad gyrfa cynhwysol.

- Bydd y Gwasanaeth yn hyrwyddo cyfleoedd a mentrau sy'n cefnogi:
- Grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol

- Myfyrwyr sydd ag anableddau
- Myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig
- Cydraddoldeb rhywiol ac arferion cyflogaeth cynhwysol

### 4.7 Gweithrediadau cynaliadwy

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn ceisio lleihau effaith amgylcheddol ei weithrediadau trwy:

- Weithredu'n wasanaeth di-bapur yn bennaf
- Lleihau deunyddiau print
- Defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu pan fo angen argraffu
- Annog arferion hyrwyddo cynaliadwy mewn digwyddiadau gyrfaoedd

Anogir sefydliadau allanol sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau gyrfaoedd i fabwysiadu dulliau cynaliadwy ar gyfer deunyddiau hyrwyddo.

## 5. Cyfrifoldebau

### 5.1 Gwasanaeth Gyrfaoedd

Yn gyfrifol am:

- Weithredu'r polisi hwn mewn gweithgareddau gyrfaoedd
- Rheoli ymgysylltiad cyflogwyr yn unol ag egwyddorion moesegol
- Cynnal gwiriadau cyflogwyr a chyfleoedd priodol
- Hyrwyddo cyfleoedd gyrfa cynaliadwy a chynhwysol

### 5.2 Staff Gyrfaoedd

Yn gyfrifol am:

- Ddarparu cyngor gyrfaoedd diduedd
- Defnyddio'r polisi wrth gymeradwyo ymgysylltiad â chyflogwyr
- Cefnogi myfyrwyr i wneud penderfyniadau gyrfa gwybodus

### 5.3 Cyflogwyr yn Ymgysylltu â PCYDDS

Disgwylir i gyflogwyr sy'n gweithio gyda'r Brifysgol:

- Gydymffurfio â deddfwriaeth gyflogaeth
- Darparu amgylcheddau gwaith diogel
- Cynnig amodau cyflogaeth teg

## 6. Monitro

Bydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn monitro gweithredu'r polisi hwn drwy:

- Weithdrefnau ymgysylltu â chyflogwyr
- Prosesau cymeradwyo swyddi gwag
- Adborth myfyrwyr
- Adolygiad polisi blynyddol

Adolygir unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad cyflogwyr neu alinio moesegol gan dîm rheoli'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd.

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd wedi ymrwymo i dryloywder a gwelliant parhaus.

Gellir cyflwyno adborth ynglŷn â'r polisi hwn i'r Gwasanaeth Gyrfaoedd. Gellir cysylltu â staff yn gyrfaoedd@pcydds.ac.uk

## 7. Camddefnyddio Polisi

Adroddir ar achosion o beidio â chydymffurfio â'r polisi wrth Bwyllgor Adnoddau a Pherfformiad y Brifysgol a Chyngor y Brifysgol.

Pan fydd pryderon ynghylch peidio â chadw at y polisi hwn, gall y Brifysgol adolygu ei hymgysylltiad â'r sefydliad, a all gynnwys cyfyngu neu dynnu'n ôl mynediad at ddigwyddiadau, llwyfannau a phartneriaethau gyrfaoedd y Brifysgol, yn unol â pholisïau sefydliadol perthnasol

## 8. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030

## Awdur(on) y polisi:

**Nishan Clarke** **Teitl y Swydd:** Pennaeth Cyflogadwyedd Myfyrwyr

**Dan Priddy** **Teitl y Swydd:** Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

## Wedi'i gymeradwyo gan:

**Peter Mannion**

Prif Swyddog Gweithredu | Cadeirydd y Grŵp Llywio Cynaliadwyedd

**Dyddiad:** 01/06/2026

## Rheolydd fersiynau'r ddogfen

| Rhif Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad newid: |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Statws cyfredol y Polisi: cymeradwywyd

A yw'r Polisi yn berthnasol i**:** AU

Dyddiad cadarnhau: 01 / 06 / 2026n

Yn effeithiol o'r dyddiad: 01 / 06 / 2026

Dyddiad adolygu'r polisi: 01 / 06 / 2027

Cymeradwywyd gan:

I'w gyhoeddi**:** ar wefan PCYDDS

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David